# CYNGOR BLYNYDDOL, 18.05.17

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Annwen Daniels (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Annwen Hughes (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Sian Wyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.W.Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, W.Roy Owen, Berwyn Parry Jones, Jason Wayne Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dewi Owen a John Pughe Roberts.

Rhoddwyd anerchiad gan y Cynghorydd Eric Merfyn Jones, Cadeirydd 2016/17.

## 1. CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Annwen Daniels yn gadeirydd am 2017/18.

Llofnododd y Cynghorydd Annwen Daniels ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2017/18.

## 2. IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Annwen Hughes yn is-gadeirydd am 2017/18.

Llofnododd y Cynghorydd Annwen Hughes ddatganiad yn derbyn y swydd o is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2017/18.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, 2017 fel rhai cywir.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

'Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 13 ar y rhaglen – Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau Etholedig.

Oherwydd natur yr adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau Etholedig, ac er mwyn cydymffurfio â gofynion y Côd Ymddygiad, datganodd y Cadeirydd fuddiant personol yn yr eitem ar ran yr holl aelodau oedd yn bresennol, ond gan nad oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu, byddai gan yr aelodau yr hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth ac i bleidleisio ar y mater.

## 5. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(1) Cydymdeimlad

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorwyr Annwen Hughes a Louise Hughes ar golli anwyliaid yn ddiweddar.

Cyfeiriwyd at farwolaeth Rhodri Morgan, cyn Brif Weinidog Cymru, fu'n flaengar yn sefydlu'r Cynulliad ac a fu'n Brif Weinidog am bron i 10 mlynedd cyn ildio'r awenau yn 2010.

Nodwyd bod y Cyngor hefyd yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(2) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd:-

- Yr aelodau ar eu llwyddiant yn yr etholiad yn ddiweddar a chroesawyd yr aelodau newydd i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor.
- Y Prif Lyfrgellydd, Hywel James, ar dderbyn Gwobr Cyflawniad Oes mewn seremoni yng Nghynhadledd Cilip Cymru yn Llandudno i gydnabod ei gyfraniad aruthrol i Lyfrgelloedd Gwynedd a hefyd i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn genedlaethol.
- Anne Thomas o'r Bala a'i thîm o Ysbyty Dolgellau ar ennill gwobr y Coleg Nyrsio Brenhinol am eu gwaith yn datblygu gofal iechyd yng nghefn gwlad Meirionnydd.
- Clwb Pêl droed Y Bala ar ennill Cwpan Cymru eleni.
- Clwb Rygbi Pwllheli ar eu llwyddiant ysgubol yn ddiweddar.
- Gethin Lloyd Evans o Benrhyndeudraeth a ddewiswyd i chwarae dros Golegau Cymru ym Mhencampwriaeth Rygbi'r Gynghrair i fyfyrwyr yn Sydney, Awstralia ym mis Gorffennaf. 'Roedd Gethin yn astudio parafeddygaeth ym Mhrifysgol Abertawe ac yn graddio eleni.

(3) Nodyn

Gofynnwyd i'r aelodau ymateb cyn gynted â phosib' i'r e-bost a anfonwyd atynt yn ddiweddar ynglŷn ag Adolygiad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol.

## 6. CWESTIYNAU

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

“Yn ddiweddar iawn, mae cwmni ar ran Vodafone wedi gosod mast 15 metr o uchder mewn lle amlwg ym Methel, ac ar dir y Cyngor. Nid oedd angen caniatâd cynllunio, nac ymgynghori gyda thrigolion lleol. Ydi hyn yn bolisi teg?”

**Ateb gan y Pennaeth Amgylchedd**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig y Pennaeth Amgylchedd i’r cwestiwn i’r aelodau ymlaen llaw.)*

“Nid polisi fel y cyfryw ydi codi mastiau telegyfathrebu. Mae hwn yn ddeddfwriaeth felly nid oes dewis gan y Cyngor i gael polisi o ran yr angen am gais cynllunio ai peidio. Mae hwn yn dod atom fel cyfraith. A beth sydd y tu cefn i’r gyfraith yma ydi bod Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i bobl o fewn Cymru gael mynediad ffôn 3G/4G cystal â phosib’ i wella ein busnesau ac i wella'r economi a'n bod yn gallu cyfathrebu gystal ag unrhyw un arall. ‘Rwy’n meddwl mai dyna sydd y tu cefn i hynny. Be maen nhw’n ceisio gwneud ydi lleihau rhwystrau i gwmnïau fel Vodafone, neu pwy bynnag, fod yn gosod offer. Felly does dim angen hawl cynllunio arnynt. Yr unig fater sydd raid iddynt fodloni ydi bod rhaid iddynt ymgynghori drwy fod yn dweud wrth yr Awdurdod Cynllunio be maen nhw’n wneud a’r unig bethau y gall yr Awdurdod Cynllunio fod yn edrych arnynt ydi gosodiad ac edrychiad yr hyn maen nhw’n bwriadu gwneud. Mae’r mater yma wedi bod i ymgynghoriad gan fod angen i’r Awdurdod Cynllunio fod yn gwneud hynny ac mae’r ymgynghori yma wedi bod hefo’r Cyngor Cymuned. Mae yna rybuddion wedi cael eu rhoi i fyny ar y safle fel mae’r angen ac mae trigolion sy’n gyfagos i’r datblygiad yma wedi eu hysbysu yn ogystal. ‘Roedd yna ddau wrthwynebiad i hyn - un gan y cynghorydd lleol a’r llall gan un o’r trigolion cyfagos, ond nid oedden nhw’n faterion i wrthod y cais. Mae’r mast sy’n 12.5 metr o uchder wedi ei osod erbyn hyn. Mae yna golofnau golau yna, mae yna golofnau eraill. Nid wy’n credu bod y gosodiad yn ddrwg. ‘Rydym ni wedi bod yn edrych ar y safle. Mae o’n unol â’r hyn mae’r cwmni wedi ddweud. Nid oedd gennym lawer o sgôp i fod yn gwrthwynebu hyn ac yn mynnu bod y cwmni yn rhoi cais cynllunio ymlaen. Os ydi o’n fater teg neu beidio, mae hynny i fyny i chi fel gwleidyddion, ond ‘rydym ni fel swyddogion yn gweithio o fewn y gweithdrefnau a’r ddeddfwriaeth sy’n cael ei gosod o’n blaenau ni.”

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

“Gafodd Cyngor Gwynedd unrhyw bres gan Vodafone ar gyfer gosod y mast yma?”

**Ateb gan y Pennaeth Amgylchedd**

“Mae’r esboniad ysgrifenedig yn cyffwrdd â deddfwriaeth arall sy’n galluogi pobl fel Vodafone, BT, y Bwrdd Dŵr, ayb, i fod yn gosod offer. Mae ganddynt hawl dan Ddeddf Priffyrdd a Deddf Strydoedd i fod yn gosod offer ar ein ffyrdd heb dâl. Mae’n rhaid iddynt adael i ni wybod beth maen nhw’n wneud, ond mae’r hawl ganddynt i fod yn gwneud hynny. Mae lle mae’r mast yma wedi’i godi yn rhan o’r briffordd felly mae ganddynt hawl i wneud hynny ac i wneud hynny yn rhad ac am ddim cyn belled ag nad ydi o’n effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr y ffyrdd ayb. Na, nid yw’r Cyngor wedi cael arian am hyn. Byddai’r Cyngor wrth ei fodd petai’n dir a’i fod oddi ar y ffordd, ac mae yna drefniadau lle mae’r Cyngor yn cael arian am osodiad fel hyn, ond nid ar yr achlysur yma. Nid oedd yna ffordd y byddem yn medru cael arian gan y cwmni.”

**7. ARWEINYDD Y CYNGOR**

Penodwyd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn Arweinydd y Cyngor am dymor y Cyngor hwn.

Rhoddodd yr Arweinydd anerchiad byr gan hysbysu’r Cyngor ei fod yn y broses o benodi 9 aelod ar gyfer y Cabinet a’i fod wedi gwahodd y Cynghorydd Mair Rowlands i weithredu fel Dirprwy Arweinydd.

## 8. ADDASIADAU I'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro adroddiad yn cynnig addasiadau i Gyfansoddiad y Cyngor:-

- yn sgil adolygiad o'r drefn graffu;
- er mwyn gweithredu newidiadau i drefniadau'r Pwyllgor Cynllunio yn deillio o ofynion cyfreithiol newydd;
- i adlewyrchu newid enw'r Adran Rheoleiddio i'r Adran Amgylchedd.

Ymddiheurodd am rai mân wallau teipio yn y papurau a chyfeiriodd hefyd at yr angen i wneud dau newid pellach i Atodiad 1 (Adran 7 o'r Cyfansoddiad), sef:-

- Dileu'r cyfeiriad at 'Gofal Cwsmer' dan Rôl a Chwmpas y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gan nad yw'n rhan o'r drefn newydd, a;
- Dileu'r cyfeiriad at 'Iaith' dan Rôl a Chwmpas y Pwyllgor Craffu Cymunedau gan mai'r Pwyllgor Iaith ei hun fydd yn ymgymryd â'r drefn graffu ar gyfer materion iaith yn y drefn newydd.

Yn ystod y drafodaeth mynegwyd syndod gan rai aelodau ynglŷn â'r gofyn statudol newydd i beidio caniatáu defnyddio eilyddion yn y Pwyllgor Cynllunio a chytunodd y Swyddog Monitro i gyfleu'r neges i'r Cynulliad a gofyn am fwy o drafodaeth.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r newidiadau yn Adran 7 o'r Cyfansoddiad, "Pwyllgorau Craffu" yn unol â'r adroddiad i weithredu'r adolygiad o'r drefn graffu, gan hefyd ddileu'r cyfeiriad at 'Gofal Cwsmer' dan Rôl a Chwmpas y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r cyfeiriad at 'Iaith' dan Rôl a Chwmpas y Pwyllgor Craffu Cymunedau.**

**(b) Mabwysiadu'r newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Iaith mewn ymateb i'r adolygiad craffu a newid enw'r Pwyllgor Archwilio i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu.**

**(c) Nodi'r newidiadau yn Adran 9 o'r Cyfansoddiad, "Pwyllgorau Rheoleiddio ac Eraill" er cydymffurfio â gofynion statudol.**

**(ch) Nodi'r newidiadau yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu newid enw'r Adran Rheoleiddio i'r Adran Amgylchedd.**

## 9. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a materion perthynol a chynigiwyd argymhellion y Grŵp Busnes gan yr Arweinydd.

Eglurwyd:-

- Nad oedd union gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor newydd yn wybyddus ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.
- Y cyflwynwyd diweddariad ar y cydbwysedd gwleidyddol i'r Grŵp Busnes ar 15 Mai fel bod modd iddynt gytuno argymhellion i'w cyflwyno i'r Cyngor Llawn.
- Bod yr holl aelodau wedi derbyn papur ychwanegol yn cyflwyno argymhellion i'r Cyngor yn seiliedig ar drafodaethau'r Grŵp Busnes a manylwyd ar gynnwys y papur hwnnw (*sydd wedi'i atodi i'r cofnodion hyn*).

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r cydbwysedd gwleidyddol a'r dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tabl yn yr Atodiad.**

**(b) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**

**(c) Mabwysiadu dyraniad cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:-**

**Grŵp Annibynnol – 2 gadair**
**Grŵp Plaid Cymru – 1 gadair.**

**(ch) Cadarnhau'r dyraniad o swyddi swyddogion cefnogi grwpiau gwleidyddol ac oriau'r swyddogion cefnogi grwpiau gwleidyddol fel a ganlyn, a hynny am oes y Cyngor os nad oes, ym marn y Grŵp Busnes, newid sylweddol yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor neu fod grŵp gwleidyddol â llai na 10% o aelodau:-**

**Grŵp Plaid Cymru – 35 awr**
**Grŵp Annibynnol – 20 awr**

**(d) Cadarnhau'r cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer y cyrff allanol fel a ganlyn am dymor y Cyngor hwn oni bai fod adolygiad yn ofynnol oherwydd newid i'r cydbwysedd gwleidyddol:-**

| CORFF | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Aelodau Unigol |
|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 5 | 3 | 1 | 0 | 0 |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 |

**(dd) Enwebu'r Cynghorwyr Dilwyn Morgan (Plaid Cymru) ac Eric Merfyn Jones (Annibynnol) yn aelodau o'r Panel Heddlu a Throsedd am y cyfnod hyd yr etholiadau llywodraeth leol nesaf.**

## 10. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn gofyn i'r Cyngor benderfynu ar yr uwch gyflogau i'w talu am y flwyddyn i ddod a chynigiwyd argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan yr Arweinydd.

Yn ystod y drafodaeth, rhoddwyd sylw penodol i'r argymhelliad i gadw lefelau cyflogau Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau ar lefel 1 (£29,100) ym mlwyddyn gyntaf y Cyngor.

Mynegodd rhai aelodau eu cefnogaeth i'r argymhelliad ar y sail ei fod yn adlewyrchu'r cyfrifoldeb a'r llwyth gwaith ynghlwm â'r rolau dan sylw a bod penderfyniad wedi'i wneud eisoes y llynedd i gadw'r uwch-gyflogau ar lefel 1.

I'r gwrthwyneb, nododd aelodau eraill y dylai'r cynghorwyr ddangos i drigolion y sir a staff y Cyngor eu bod hwythau'n fodlon rhannu'r boen yn y cyfnod presennol o galedi a chynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ostwng yr uwch gyflogau i lefel 2 (£26,200).

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y gwelliant a phleidleisiodd mwy na chwarter yr aelodau oedd yn bresennol o blaid hynny.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant:-

**O blaid (32)**
Y Cynghorwyr Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Aeron Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Sion Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Roy Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Dewi Roberts, Elfed Roberts, Angela Russell, Mike Stevens, Hefin Underwood, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams ac Owain Williams.

**Yn erbyn (39)**
Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Steve Collings, Annwen Daniels, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Simon Glyn, Gareth Griffith, Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, Sian Wyn Hughes, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles Jones, Elin Walker Jones, Huw Wyn Jones, Linda Wyn Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Edgar Owen, Rheinallt Puw, Peter Read, Gareth A.Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Cemlyn Williams, Gethin Glyn Williams a Gruffydd Williams.

**Atal (1)**
Y Cynghorydd Catrin Wager

Gan fod y gwelliant wedi colli, pleidleisiodd yr aelodau ar y cynnig gwreiddiol i dderbyn argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Parhau i dalu uwch gyflogau i'r 18 rôl a nodir isod:-**
- **Arweinydd**
- **Dirprwy Arweinydd**
- **Hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet**
- **Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf**
- **Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu (x3)**
- **Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**
- **Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio**
- **Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu**
- **Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau**

**(b) Cadw lefel cyflogau Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau (a restrir ym mhenderfyniad (a) uchod) ar Lefel 1 (h.y. £29,100) ym mlwyddyn gyntaf y Cyngor newydd.**

**(c) Cynnal arolwg o lwyth gwaith yr holl gadeiryddion ymhen blwyddyn i weld oes lle i amrywio'r penderfyniad neu ail-ystyried y lefelau cyflog.**

**11. CALENDR PWYLLGORAU 2017/18**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2017/18.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2017/18.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.25 y.h.

**CADEIRYDD**

**ATODIAD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **18 MAI, 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR (Papur ychwanegol i gyd-fynd gydag eitem 12)** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno argymhellion yn seiliedig ar drafodaethau y Grwp Busnes i'r Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor a Chadarnhau Dyraniad Swyddi ac Oriau'r Swyddogion Cefnogi Aelodau** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

**1. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

1.1 Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2017, mae cydbwysedd gwleidyddol Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

| Grwp | Nifer |
|---|---|
| Plaid Cymru | 41 |
| Annibynnol | 24 |
| LLais Gwynedd | 6 |
| Llafur Rhyddfrydol | 2 |
| Aelodau unigol | 2 |
| **Cyfanswm** | **75** |

**2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU**

2.1 Dyrenir y seddau ar y gwahanol bwyllgorau yn unol â'r hyn a nodir yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

**3. CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU**

3.1 Yr unig bwyllgorau y mae eu cadeiriau i'w dyrannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol ydi'r pwyllgorau craffu. Mae rheolau penodol i'w dilyn wrth gyfrifo'r hawliau i gadeiryddiaethau craffu yn seiliedig ar y cydbwysedd gwleidyddol. Mae'r rheolau yn ceisio sicrhau bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau. O ddilyn y rheolau, dyrennir y cadeiryddiaethau fel a ganlyn:

Grwp Annibynnol – 2 gadair, Grwp Plaid Cymru – 1 cadair.

**4. SWYDDOGION CEFNOGI AELODAU**

4.1 Dyrennir oriau y cymorth gwleidyddol rhwng y grwpiau sy'n gymwys fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Grwp Plaid Cymru | 35 awr |
| Grwp Annibynnol | 20 awr |

**5. CYRFF ALLANOL**

5.1 Y Cyngor sy'n penderfynu ar ddyraniadau'r seddau i gyrff sydd angen eu gwneud ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Mae dau o'r rhain, sef

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

5.2 Dyrennir y seddi ar y ddau awdurdod allanol fel a ganlyn:

| CORFF | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Aelodau Unigol |
|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 5 | 3 | 1 | 0 | 0 |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 |

5.3 Bydd y dyraniad seddi uchod yn sefyll am dymor y Cyngor hwn oni bai fod adolygiad yn ofynnol oherwydd newid i'r cydbwysedd gwleidyddol.

5.4 Panel Heddlu a Throsedd. Fel a nodwyd yn yr adroddiad gwreiddiol, mae'n ofynnol i'r Cyngor adnabod aelodau i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Heddlu a Throsedd. Bellach, rydym yn ymwybodol fod cynrychiolaeth Gwynedd ar y panel yn ddau aelod – 1 o Grwp Plaid Cymru ac un o'r Grwp Annibynnol.

5.5 Mae'n ofynnol fod aelodau a enwebir i'r Panel Heddlu a Throsedd yn meddu ar wybodaeth a'r profiad angenrheidiol er mwyn i Banel Heddlu a Throsedd gyflawni ei swyddogaethau yn effeithio, a dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth enwebu cynrychiolwyr. Cyflwynir yr enwau i'r Ysgrifennydd Cartref am gymeradwyaeth.

5.6 Gofynnir i'r Cyngor enwebu cynrychiolwyr o'r ddau grwp uchod. Argymhellir fod y penodiad yma am gyfnod hyd yr etholiadau llywodraeth leol nesaf.

**DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 10 | 5 | 2 | 0 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 10 | 5 | 2 | 1 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 10 | 6 | 1 | 0 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | 10 | 6 | 1 | 1 | 0 | 18 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 8 | 5 | 1 | 0 | 1 | 15 |
| Pwyllgor Cynllunio | 8 | 5 | 1 | 1 | 0 | 15 |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog | 8 | 5 | 1 | 1 | 0 | 15 |
| Pwyllgor Iaith | 8 | 5 | 1 | 0 | 1 | 15 |
| Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion | 8 | 5 | 2 | 0 | 0 | 15 |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | 4 | 2 | 1 | 0 | 0 | 7 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **84** | **49** | **13** | **4** | **4** | **154** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Pensiynau | 4 | 2 | 0 | 1 | 0 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 3 | 1 | 0 | 1 | 11 |
| CYSAG | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 | 1 | 0 | 0 | 8 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **103** | **59** | **15** | **5** | **5** | **187** |

DRAFFT